

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

# Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol - Crynodeb

Mawrth 2024

RHONDDA CYNON TAF

# Cynnwys

Geirfa / Diffiniadau ........ 03
1. Cyflwyniad ........ 05
2. Beth yw Llifogydd? ........ 06
3. Perygl llifogydd yn Rhondda Cynon Taf a sut rydyn ni'n asesu hyn ........ 07
4. Y Newid yn yr Hinsawdd a Pherygl Llifogydd ........ 08
5. Pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Risg? ........ 09
6. Amcanion y Strategaeth ........ 10
7. Mesurau Llifogydd ........ 12
8. Gweithredoedd Llifogydd ........ 13
9. Ariannu a Blaenoriaethu ........ 14
10. Asesiadau Amgylcheddol ........ 15
11. Sut byddwn ni'n mesur cynnydd? ........ 16
Rhagor o wybodaeth ........ 16

# Geirfa / Diffiniadau

### Y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR):
Asesiad cenedlaethol o berygl llifogydd a pheryglon o bob ffynhonnell, a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Cyngor:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

### Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010:
Deddf Seneddol sy'n diweddaru ac yn addasu deddfwriaeth i ymdrin â bygythiad llifogydd a phrinder dŵr.

### Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM):
Rheoli pob agwedd ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol drwy ddeall perygl (tebygolrwydd a chanlyniad) a cheisio addasu'r ffactorau hyn i leihau'r effeithiau.

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA):
Proses sy'n penderfynu a allai cynllun neu brosiect effeithio'n negyddol ar safle Ewropeaidd ai peidio.

### Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILA):
Yr Awdurdod Lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) ar gyfer yr ardal fel y ddiffinnir gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

### Perygl Llifogydd Lleol:
Perygl llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin.

### Strategaeth Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd:
Un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol.

### Prif Afon:
Cwrs dŵr a nodir ar y Map o'r Prif Afonydd, y mae gan CNC bwerau yn ei gylch a chyfrifoldeb i ddiogelu rhag perygl i fywyd lle mae tystiolaeth wirioneddol o berygl llifogydd.

### Rheoli Risg Erydiad Arfordirol Cenedlaethol (NFCERM):
Gofyniad o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i Lywodraeth Cymru ei gynhyrchu sy'n gosod cyfeiriad ac amcanion ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

### Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM):
Mesurau sy'n defnyddio prosesau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd, er enghraifft, plannu coed, creu ardaloedd i storio dŵr a rheoli tir/pridd.

### Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):
Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n rheoli adnoddau naturiol Cymru.

### Awdurdod Rheoli Risg (ARhR):
Term a ddefnyddir i ddisgrifio sefydliadau sy'n chwarae rhan fawr mewn rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol.

### Ardaloedd Perygl Llifogydd Strategol (APLIS):
Ffiniau asesu ar gyfer asesu perygl llifogydd yn Rhondda Cynon Taf.

### System Draenio Cynaliadwy (SDCau):
Dull o reoli dŵr wyneb sy'n helpu i ddelio â gormodedd o ddŵr drwy efelychu prosesau a phatrymau draenio naturiol.

### Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB):
Gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod cynigion draenio ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nag 1 annedd neu lle mae'r darn o dir sydd dan waith adeiladu dros 100m2 yn addas i'r diben ac wedi'i adeiladu yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cynaliadwyedd Draeniad.

### Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA):
Proses ffurfiol ar gyfer asesu effaith cynllun neu raglen ar yr amgylchedd.


Gwelliannau Cilfach Cwlfert – Bryn Ifor, Aberpennar


Basn Gwahanu - Cynllun Llinaru Llifogydd Lôn y Parc, Aberdâr


Gorsaf Fonitro - Heol Tyle-du, Treorci

# 1 Cyflwyniad

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi paratoi strategaeth a chynllun gweithredu sy'n cynnwys manylion yr amcanion a'r mesurau a gweithredoedd sydd wedi'u datblygu i amlinellu sut mae'r Awdurdod yn bwriadu rheoli perygl llifogydd lleol ar lefel uchel yn ystod cyfnod y strategaeth benodol yma a sut i fabwysiadu dull cyfannol wrth reoli perygl llifogydd.**

Cafodd **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** ei chyflwyno ar ôl adolygu'r llifogydd ar draws y Deyrnas Unedig yn 2007. Bwriad y Ddeddf yw darparu dulliau rheoli gwell a mwy cynhwysfawr o ran perygl llifogydd ar gyfer pobl, eiddo a seilwaith.

O dan y ddeddfwriaeth yma, daeth y Cyngor yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ac mae ganddo ddyletswydd i "ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro" strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol.

Dyma ail Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol y Cyngor, sy'n disodli'r strategaeth gyntaf a gyhoeddwyd yn 2013.

## Amcanion (1)

- Targedau neu ganlyniadau trosfwaol rheoli perygl llifogydd yn ystod, neu y tu hwnt i gylch y Strategaeth Leol.
- Datganiadau o uchelgais Awdurdodau Lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd.
- Yn benodol i'r awdurdod lleol, ond yn gysylltiedig ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol.

## Mesurau (2)

- Gweithgareddau a ffyrdd eang o weithio i gyflawni'r Amcanion.
- Yn berthnasol i ardal yr Awdurdod Lleol yn hytrach na chymunedau/lleoliadau penodol y tu mewn iddi.
- Yn rhydd o gyfyngiadau amser ac yn fesuradwy ar lefel uchel, gyda chostau dangosol a manteision.

## Gweithredoedd (3)

- Tasgau, gweithgareddau neu fentrau penodol, cynllunio a thracio, i gyflawni'r Mesurau.
- Allbwn/canlyniadau wedi'u diffinio'n glir gydag amserlenni dangosol i'w cyflwyno (byr/canolig/hir).
- Yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd, gan adrodd ar gynnydd bob 2 flynedd.
- Gall camau gweithredu fod yn benodol i leoliad yn RhCT a hefyd fod yn berthnasol i ardal yr Awdurdod Lleol yn gyfan gwbl.


**Ffigur 1:** Diffiniad o Amcanion, Mesurau a Gweithredoedd ar gyfer cyflawni Strategaeth Leol CBSRhCT

# 2

# Beth yw Llifogydd?

**Mae llifogydd yn berygl sydd â'r potensial i achosi niwed i iechyd a bywyd pobl ac effeithio ar yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig. Mae perygl llifogydd yn gyfuniad o'r tebygolrwydd y bydd llifogydd yn digwydd a difrifoldeb ei effeithiau.**

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn datganoli rheoli perygl llifogydd lleol i'r Cyngor fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Diffinnir **perygl llifogydd lleol** fel llifogydd o:



**Cyrsiau dŵr cyffredin**
(fel afonydd bychain, nentydd a ffosydd)



**Dŵr Wyneb**



**Dŵr Daear**

Mae gwahanol Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghymru yn gyfrifol am wahanol ffynonellau llifogydd.

Mae'r strategaeth yma'n canolbwyntio ar ffynonellau lleol o berygl llifogydd ond mae'n cydnabod ac yn ystyried ffynonellau eraill o berygl llifogydd (fel prif afonydd a charthffosydd) a chyfrifoldebau'r Awdurdod Rheoli Risg cysylltiedig.

3


# 3.Perygl llifogydd yn Rhondda Cynon Taf a sut rydyn ni'n asesu hyn

**Mae llifogydd yn parhau i fod yn fygythiad allweddol i gymunedau ledled Rhondda Cynon Taf. Ceir tystiolaeth o hyn gan effaith stormydd diweddar fel Storm Dennis ym mis Chwefror 2020 a gafodd effaith fewnol ar tua 1,600 eiddo.**

Ers cyhoeddi strategaeth gyntaf y Cyngor yn 2013, mae'r mapiau a'r setiau data sydd ar gael, ynghyd â gwybodaeth ddaearyddol a hanes llifogydd lleol, wedi gwella, gan roi dealltwriaeth well i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o berygl llifogydd lleol yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu 12 ffin asesu perygl llifogydd. Cyfeirir at y rhain fel Ardaloedd Perygl Llifogydd Strategol. Dangosir y rhain yn Ffigur 2.

Mae llunio'r ardaloedd yma yn RhCT yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd ar gyfer asesu perygl llifogydd lleol yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n ceisio darparu dull cyfannol ac integredig o reoli perygl llifogydd sydd ddim yn seiliedig ar ffiniau gweinyddol na gwleidyddol.

Yn ôl asesiadau cenedlaethol o risg cyfredol a'r Gofrestr Risgiau Cymunedol a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, **Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod sydd â'r risg uchaf ar gyfer perygl llifogydd lleol yng Nghymru**.




**Ffigur 2:** Ardaloedd Risg Llifogydd Strategol yn Rhondda Cynon Taf


# 4 Y Newid yn yr Hinsawdd a Pherygl Llifogydd

**Mae disgwyl i'r newid yn yr hinsawdd gynyddu'r perygl o lifogydd yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru, gan ddod â stormydd amlach a mwy dwys sy'n arwain at fflachlifoedd.**

Mae'r strategaeth wedi'i datblygu gyda golwg strategol tymor hwy, gan gydnabod natur perygl llifogydd o ran heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r amcanion, mesurau a chamau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol wedi'u datblygu i gyd-fynd â Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor, gan helpu i gyflawni uchelgais y Cyngor o ddod yn Garbon Niwtral erbyn 2030, ochr yn ochr â rheoli'r perygl o lifogydd lleol.


Golygfa dros Donysguboriau


Parc Coffa Ynysangharad


Cynllun System Draenio Cynaliadwy (SDCau) – Canol Tref Pontypridd

# 5 Pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Risg?

**Mae'r term 'Awdurdod Rheoli Risg' yn cyfeirio at y sefydliad(au) sydd â phwerau deddfwriaethol ynghylch rheoli perygl llifogydd.**

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod gyflawni nifer o ddyletswyddau statudol, fel y'u diffinnir o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Yn ogystal â'r rhain, mae'r Ddeddf yn nodi ystod o bwerau caniatäol ar gyfer yr Awdurdodau, gan eu galluogi i ymgymryd â gweithgareddau diffiniedig i reoli'r perygl o lifogydd.

Mae Tabl 1 yn crynhoi pa awdurdodau sy'n bennaf gyfrifol am reoli perygl llifogydd yn dibynnu ar y gwahanol ffynonellau llifogydd.

Mae gan randdeiliaid megis darparwyr seilwaith, tirfeddianwyr glannau afonydd a thrigolion hefyd gyfrifoldebau i gynnal eu hasedau at ddibenion rheoli perygl llifogydd.

| Ffynonellau Llifogydd | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cwmni Dŵr | Awdurdod Priffyrdd | Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif afon | | ✓ | | | |
| Dŵr wyneb | ✓ | | | ✓ (ar neu yn dod o'r Briffordd) | ✓ (ar neu yn dod o'r Briffordd (Cefnffordd & Thraffordd)) |
| Cwrs dŵr cyffredin | ✓ | | | | |
| Dŵr daear | ✓ | | | | |
| Llifogydd o garthffosydd | | | ✓ | | |
| Cronfeydd dŵr | | ✓ | | | |

**Tabl 1:** Awdurdodau Rheoli Risg sy'n gyfrifol am reoli gwahanol ffynonellau llifogydd yn Rhondda Cynon Taf

# 6 Amcanion y Strategaeth

Mae'r Cyngor wedi datblygu 13 o amcanion strategol sy'n amlinellu, ar lefel uchel, sut mae'n bwriadu rheoli perygl llifogydd lleol yn ystod cylch oes y Strategaeth yma (Tabl 2). Mae'r amcanion strategol yn cyd-fynd â nod ac amcanion y **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol** (Ffigur 2) ac yn adlewyrchu cyd-destun a blaenoriaethau lleol Rhondda Cynon Taf.

**Lleihau'r risg i bobl a chymunedau yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol.**

- **A.** Gwella ein dealltwriaeth o risg a'r ffordd rydyn ni'n rhoi gwybod am risg.
- **B.** Paratoi a datblygu cydnerthedd.
- **C.** Blaenoriaethu buddsoddi mewn cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf.
- **D.** Atal rhagor o bobl rhag dod yn agored i berygl.
- **E.** Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau.

**Ffigur 3:** Nod ac Amcanion y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Lleol



Llifogydd i'r A4058, Aberpennar – Storm Dennis Chwefror 2020

| Rhif | Amcan Strategol |
|---|---|
| 1 | Lleihau trallod trwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd. |
| 2 | Lleihau aflonyddwch yn y gymuned drwy leihau nifer yr adeiladau preswyl a masnachol sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan lifogydd. |
| 3 | Lleihau perygl i fywyd drwy leihau nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio gan beryglon gan lifogydd dwfn a chyflym. |
| 4 | Lleihau amhariad gan dywydd garw i seilwaith hanfodol a gwasanaethau hanfodol. |
| 5 | Gwella neu beidio â chael effaith andwyol ar ansawdd y dŵr. |
| 6 | Nodi cyfleoedd sy'n gweithio gyda phrosesau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd. |
| 7 | Cynnal, neu wella statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safleoedd Pwysig o ran Natur a Chadwraeth a chyfrannu at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol RhCT. |
| 8 | Gwella ein dealltwriaeth o berygl llifogydd lleol yn RhCT a sut mae modd i'r perygl hwn gael ei effeithio gan newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. |
| 9 | Datblygu offer cyfathrebu effeithiol i rannu gwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth unigolion a chymunedau o beryglon llifogydd lleol a sut mae modd eu rheoli'n rhagweithiol. |
| 10 | Gwella gallu unigolion a chymunedau i baratoi ac ymateb i beryglon llifogydd ac i adfer yn dilyn llifogydd. |
| 11 | Sicrhau bod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Rheoli Risg a rhanddeiliaid eraill i reoli perygl llifogydd yn gyfannol. |
| 12 | Sicrhau bod swyddogaethau rheoli perygl llifogydd yn cael eu hystyried a'u cyflawni mewn ffordd gynaliadwy. |
| 13 | Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi ar gyfer cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. |

**Tabl 2:** Amcanion Strategol Lleol y Cyngor

# 7 Mesurau Llifogydd

**Er mwyn cyflawni'r 13 amcan strategol, mae'r Cyngor wedi cynnig gweithredu 31 o fesurau llifogydd lefel uchel ac eang eu cwmpas.**

Mae pob mesur wedi'i gategoreiddio'n chwe thema lefel uchel, a dangosir pob un ohonyn nhw yn Nhabl 3.

| Thema | Rhif | Teitl y Mesur |
|---|---|---|
| Cynllunio Gwaith Datblygu ac Addasu | M1 | Ymgynghorai Statudol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol |
| | M2 | Corff Cymeradwyo SDCau |
| Ymwybyddiaeth, Parodrwydd ac Ymateb i Lifogydd | M3 | Cyfathrebu |
| | M4 | Rhybuddio a Rhoi Gwybod |
| | M5 | Cynlluniau Ymateb mewn Argyfwng |
| | M6 | Addasu Cymunedol a Chydnerthedd |
| | M7 | Gweithio Mewn Partneriaeth |
| | M8 | Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd |
| Astudiaethau, Asesiadau a Chynlluniau | M9 | Ymchwilio i Ddigwyddiadau Llifogydd |
| | M10 | Datblygu Achos Busnes Cynllun Lliniaru Llifogydd |
| | M11 | Rheoli Ardal Perygl Llifogydd Strategol |
| | M12 | Methodoleg Perygl Llifogydd a Pheryglon |
| | M13 | Cynllun Gweithredu Llifogydd |
| Rheoli Tir, Rheoli Diwylliannol a Rheoli Amgylcheddol | M14 | Rheoli Llifogydd Naturiol |
| | M15 | Gwella'r Amgylchedd a Chreu Cynefin |
| | M16 | Cydgysylltu Awdurdod Rheoli Risg |
| Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | M17 | Mapio Asedau Draenio yn Ofodol |
| | M18 | Cynlluniau Rheoli Asedau Dalgylchoedd |
| | M19 | Cofrestr Asedau a Chofnodion |
| | M20 | Dynodi Strwythurau |
| | M21 | Caniatâd Draenio Tir ac Is-ddeddfau |
| | M22 | Gorfodi Draenio Tir |
| | M23 | Gorfodi Corff Cymeradwyo SDCau (Corff Cymeradwyo SDCau) |
| | M24 | Adeiladu Cynlluniau Lliniaru Llifogydd |
| | M25 | Pwerau mynediad ar dir |
| | M26 | Pŵer i ofyn am wybodaeth a chosbau sifil |
| | M27 | Achosi llifogydd atodol er mwyn rheoli perygl llifogydd |
| | M28 | Gwaith Gorfodi o ran Ceuffosydd Dŵr Wyneb Preifat |
| Monitro | M29 | Monitro Lleihau Perygl Llifogydd Lleol |
| | M30 | Monitro ac Asesu Hydrolegol |
| | M31 | Monitro Cyflenwi Buddion Ehangach |

**Tabl 3:** Mesurau Llifogydd y Cyngor

# 8 Gweithredoedd Llifogydd

**Bydd 13 o amcanion strategol a 31 o fesurau llifogydd yn cael eu cyflawni trwy roi ystod eang o gamau gweithredu ar waith. Cyfeirir at hyn fel y Cynllun Gweithredu Llifogydd.**

Mae'r Cynllun Gweithredu Llifogydd yn cyflawni gofyniad y Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009) i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol baratoi Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Llifogydd yn rhoi gwybodaeth ar ddwy raddfa:

1. Mae Cynllun Gweithredu Llifogydd Rhondda Cynon Taf yn nodi'r camau gweithredu llifogydd i'w cyflawni ledled Rhondda Cynon Taf.
2. Mae 12 Cynllun Gweithredu Llifogydd wedi'u paratoi ar gyfer pob un o'r 12 Ardal Risg Llifogydd Strategol.

Bydd pob un o'r gweithrediadau yma yn cael eu hystyried yn y tymor byr (1-2 flynedd), y tymor canolig (2–5 o flynyddoedd) a'r tymor hir (5+ o flynyddoedd).

Bydd y Cynllun Gweithredu Llifogydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob 2 flynedd i adlewyrchu cyflawniad parhaus y Cyngor yn erbyn yr amcanion a'r mesurau.



Basn Gwahanu - Cynllun Llinaru Llifogydd Bronallt Terrace Uchaf, Abercwmboi



Pant Draenio Priffordd – A4058, Y Drenewydd



Gwelliannau Cilfach Cwlfert – A465 Ffordd y Rhigos



Mesur Gwrthsefyll Llifogydd ar gyfer Eiddo

9

# Ariannu a Blaenoriaethu

**Mae'r mesurau a'r camau gweithredu a amlinellir yn y strategaeth yma i reoli perygl llifogydd lleol yn cael eu hariannu gan amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r rhan fwyaf o'r ffynonellau yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy grantiau cyfalaf a refeniw ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.**

Er mwyn cyflymu'r gwaith o gyflawni yn erbyn amcanion, mesurau a chamau gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol a Lleol, ac i feithrin cydnerthedd yn erbyn newid yn yr hinsawdd, mae blaengynllunio effeithiol a chyflawni rhaglenni yn allweddol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen ceisio cyllid gan amrywiaeth o ffynonellau a bydd angen blaenoriaethu'r cyllid yma gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i'r cymunedau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd.

**Cyn:** Cilfach Cwlfert Heol Pentre



**Ar ôl:** Cilfach Cwlfert Heol Pentre



# 10 Asesiadau Amgylcheddol

**Bydd gweithredu'r strategaeth, yn ogystal â lleihau perygl llifogydd lleol yn Rhondda Cynon Taf, hefyd yn rhoi cyfle i wella'r amgylchedd naturiol, yr amgylchedd gwledig a'r amgylchedd adeiledig yn Rhondda Cynon Taf trwy wella'r amgylchedd a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd.**

Mae asesiadau wedi'u cynnal ochr yn ochr â datblygu'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol drafft i sicrhau bod yr Amcanion, Mesurau a Chamau Gweithredu a gyflwynir yn ystyried yr amgylchedd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r asesiadau yma'n ystyried ac yn cofnodi sut mae'r Strategaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

Mae'r asesiadau yma'n cynnwys **Asesiad Amgylcheddol Strategol** ac **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**.





Basn Gwahanu - Cynllun Llinaru Llifogydd Lôn y Parc, Aberdâr

# 11 Sut byddwn ni'n mesur cynnydd?

**Bydd mesur cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn canolbwyntio ar gyflawni'r camau gweithredu llifogydd, a'r manteision sy'n deillio o gamau gweithredu o'r fath. Mae'r camau gweithredu llifogydd wedi'u datblygu i gyflawni'r mesurau a'r amcanion yn y Strategaeth Leol.**

Bydd y gwaith o gyflawni Cynlluniau Gweithredu Llifogydd Rhondda Cynon Taf a'r Ardal Risg Llifogydd Strategol yn cael eu monitro'n flynyddol a'u diweddaru bob 2 flynedd i adlewyrchu darpariaeth barhaus yn erbyn yr amcanion a'r mesurau.

Bydd y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn ei lle am 6 blynedd o'r dyddiad cyhoeddi a bydd yn cael ei diweddaru yn unol â diweddariadau i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn y dyfodol.


Basn Gwahanu - Cynllun Llinaru Llifogydd Cwmaman, Cwmaman

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ewch i :

**Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol I Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)**

neu e-bostio'r **Garfan Rheoli Perygl Llifogydd**:

**RheoliPeryglLlifogydd@rctcbc.gov.uk**